**Adroddiad i: Pwyllgor Cynllunio**

**Dyddiad y Cyfarfod: 19 Medi 2012**

# Adroddiad ar yr ymgynghoriad ar y ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

1.1. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi cyfres o Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol, gyda'r nod o egluro polisïau yn y Cynllun Datblygu Unedig ymhellach. Mae nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte hefyd yn ceisio amlygu polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol, os bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn 'gadarn' gan yr Arolygaeth Cynllunio ac yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol yn lle'r Cynllun Datblygu Unedol.

1.2. Diben yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Aelodaeth am yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ynghylch Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd ac amlinellu unrhyw newidiadau sy'n codi y dylid eu cynnwys yn y ddogfen. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gyfer y Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd o 26 Medi hyd at 16 Rhagfyr 2011.

1.3. Bwriedir y bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd o gymorth i'r cyhoedd, datblygwyr, Cynghorau Tref a Chymuned, Cynghorwyr a Swyddogion i ddeall beth yw'r goblygiadau ar gyfer gwaith a wneir ar Safle Treftadaeth y Byd ac yn y 'Parth Byffer' o'i hamgylch.

1.4. Mae'n bwysig nodi wrth ystyried mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd, nad yw'r Cyngor yn cymryd penderfyniad a ddylai Safle Treftadaeth y Byd a'r Parth Byffer fodoli; penderfynwyd ar hynny ac yna'i ddynodi, yn ôl yn 2009 ac ni ellir newid hynny. Ers 2009, mae'r effaith y gallai datblygiadau ei gael ar y Safle Treftadaeth y Byd a'i Pharth Byffer wedi bod yn ystyriaeth faterol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae hefyd yn bwysig ychwanegu nad yw dynodi Safle Treftadaeth y Byd a Pharth Byffer yn effeithio ar ba ddatblygiad y gellid ei wneud heb ganiatâd cynllunio (hawliau datblygu a ganiateir). Nid yw ychwaith yn cyflwyno'r angen am Ddatganiadau Dylunio a Mynediad (gofyniad cenedlaethol, a gafodd eu cyflwyno yn 2009).

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. Hysbysu'r Aelodaeth am yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd mewn perthynas â Chanllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd ac amlinellu unrhyw newidiadau dilynol i'r ddogfen. Y Cyngor Llawn ar 9 Hydref fydd yn cymeradwyo'r ddogfen yn derfynol. Bydd unrhyw sylwadau a gyflwynir yn y pwyllgor yn cael eu hadrodd i'r Cyngor Llawn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Fod yr Aelodau'n nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori a'r newidiadau dilynol i'r Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd.

## 4. Manylion yr adroddiad

*Cefndir*

4.1. Derbyniodd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte ei statws Safle Treftadaeth y Byd gan UNESCO ym mis Mehefin 2009. Dynodwyd y safle oherwydd cydnabyddir ei bod o 'Werth Byd-eang Neilltuol' sydd o bwys i ddynoliaeth gyfan. Fel rhan o'r dynodiad, sefydlwyd 'Parth

Byffer' i ddiffinio pa rannau o'r ardal o'i chwmpas sy'n cyfrannu at 'Werth Byd-eang Neilltuol' y Safle Treftadaeth y Byd.

4.2. Cafodd Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd eu paratoi ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Swydd Amwythig. Mabwysiadodd Wrecsam y Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd yn ffurfiol ym mis Mehefin 2012. Amcan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n gyfrifol am warchod y Safle Treftadaeth y Byd yw rheoli datblygu mewn modd positif sy'n cefnogi'r weledigaeth a amlinellir yn y Cynllun Rheoli.

4.4. O brofiad ymarferol, mae absenoldeb dogfen ganllaw wedi'i gwneud yn anodd i ddatblygwyr ac ymgeiswyr allu sefydlu beth sydd ei angen o ganlyniad i ddynodiad y Safle Treftadaeth y Bwyd a Pharth Byffer. Fel rhan o ddyletswydd y Cyngor i warchod y Safle, mae cyhoeddi'r ddogfen hon yn gyfrifoldeb clir sydd wedi'i amlinellu i bob un o'r tri Chyngor gan UNESCO fel rhan o'r dynodiad. Ymhellach, gan fod y Safle Treftadaeth y Byd yn croesi ardaloedd y tri awdurdod, mae'n bwysig fod cyngor cyson yn cael ei roi mewn cyd-ddogfen.

4.5. Mae'r ddogfen hon yn ymdrech i egluro mewn termau syml beth mae'n rhaid i ddatblygwyr ei gyflwyno gyda cheisiadau cynllunio a beth y dylai'r datblygiad ei hunan ystyried ei gynnwys er mwyn lleihau effaith a dod yn nodwedd sy'n cyd-fynd â'r Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r ddogfen hefyd yn edrych yn rhannol ar bwysleisio agweddau positif dynodiad Safle Treftadaeth y Byd ac amlygu'r budd economaidd lleol posibl trwy dwristiaeth.

*Ymgynghori*

4.6. Cytunwyd ar gynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft, y sgôp a'r bwriad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus mewn Pwyllgor Cynllunio ym mis Awst 2011.

4.7. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gyfer Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd o 26 Medi hyd at 16 Rhagfyr 2011.Roedd fformat y broses ymgynghori o ran templed sylwadau a strwythur cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn fwriadol benagored er mwyn gallu denu rhagor o wahanol sylwadau gan y cyhoedd.

4.8. Roedd yr ymgynghori'n cynnwys gosod rhybuddion cyhoeddus yn y Denbighshire Free Press, papurau lleol, hysbyseb yn Llais y Sir, defnyddio gwefan y Cyngor ac anfon llythyr at ragor na 20 o sefydliadau ac unigolion gan gynnwys: Cynghorau Tref a Chymuned, Cynghorwyr, asiantau lleol ac undebau amaethyddol yn eu hysbysu o'r ymgynghoriad a sut i ymateb. Roedd copïau o'r ddogfen ar gael yn Llyfrgell a Siop Un Stop Llangollen.

4.9. Cynhaliwyd tair sesiwn 'galw i mewn' anffurfiol i roi cyfle i'r cyhoedd drafod cynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol gyda swyddogion. Cynhaliwyd y sesiynau o 3pm – 8pm ar: 3ydd Hydref yn Neuadd y Plwyf y Waun, 24ain Hydref yng Nghanolfan Gymunedol Trevor a 15fed Tachwedd yn Neuadd y Dref Llangollen. Yn ogystal, trefnodd Sir Ddinbych gyfarfod anffurfiol i asiantau cynllunio lleol a ffermwyr / tirfeddianwyr drafod y cynnwys a goblygiadau'r ddogfen. Roedd y cyfarfod yn cynnwys aelodau ward, cynrychiolwyr o'r undebau'r ffermwyr a mwy na 70 o bobl. Bu Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn trafod y ddogfen gyda Grŵp Aelodau Ardal a Chyngor Tref Llangollen a Chyngor Cymuned Llandysilio.

4.10. Derbyniodd y Cyngor 10 ymateb i'r ymgynghoriad a oedd yn codi'r materion canlynol:

- Ansicr beth mae 'synnwyr o gyrraedd' yn ei olygu.
- Dylai fod yna ragdybiaeth yn erbyn tyrbeini gwynt.
- Dylai rhan o Ddyffryn Pengwern gael ei gynnwys yn y parth byffer.
- Dryswch ynghylch Tabl 1 – Senarios Datblygu Nodweddiadol.
- Meddwl fod y ddogfen angen gosodiad symlach yn cael ei arwain gan fathau o geisiadau.
- Nifer o sylwadau manwl oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru - ynghylch eithrio'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac eglurhad ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safleoedd Cadwraeth Arbennig.
- Pryder y byddai'r dynodiad yn cynyddu costau drwy gyflwyno gofyniadau newydd ac yn cadw datblygiadau o'r ardal.

4.11. Mae ymatebion manwl yn atodiad 1 sydd hefyd yn cyfeirio at unrhyw newidiadau i Ganllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd. Mewn ymateb i awgrym Cyngor Tref Llangollen, penderfynodd swyddogion ddrafftio rhestr wirio cais Safle Treftadaeth y Byd i ymgeiswyr. Fe'i hatodir fel atodiad 2. Mae fersiwn derfynol Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd yn atodiad 3.

4.12. Mae newidiadau allweddol i'r ddogfen yn cynnwys cyfeiriad at 'leoli' yn nhabl 1, senario 1, ychwanegu cyfeiriad at 'parciau a phaneli solar' yn nhabl 1, senario 4 ac eglurhad ynghylch Ardal Cadwraeth Arbennig a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Afon Dyfrdwy'n gyffredinol ym mharagraff 8.1. Dylai rhestr wirio anffurfiol Safle Treftadaeth y Byd hefyd fod o gymorth i helpu symleiddio'r ddogfen mewn taflen un tudalen i ymgeiswyr.

**5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Ni fyddai mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr un o Flaenoriaethau Corfforaethol 2009-2012 nac at y Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17 drafft. Fodd bynnag, byddai'r ddogfen yn gwella profiad y cwsmer o wasanaeth cynllunio Sir Ddinbych a hefyd, yr un pryd, yn sicrhau y byddai datblygiadau'n cael eu rheoli i amddiffyn ased sy'n cael ei werthfawrogi'n fyd-eang y mae'r Cyngor yn ddigon ffodus o'i gael. Mae hefyd yn werth nodi fod cyhoeddi a mabwysiadu dogfen canllawiau polisi ar gyfer Safle Treftadaeth y Bydd yn gyfrifoldeb y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ysgwyddo fel rhan o'r dynodiad.

**6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Does dim angen unrhyw adnoddau ychwanegol gan y bydd gwybodaeth yn cael ei gyflwyno a'i asesu fel rhan o gais cynllunio. Gellir paratoi copïau papur o Ganllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd o fewn y gyllideb bresennol a bydd copi electronig o'r ddogfen ar gael ar y wefan.

6.3. Nid ystyrir y byddai'r ddogfen yn arwain at niwed annerbyniol i'r amgylchedd naturiol nac i fioamrywiaeth.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

7.1. Fel yr amlinellwyd yn adran 4.6 yr adroddiad, cynhaliwyd ymgynghoriad llawn.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1. Does dim goblygiadau ariannol amlwg o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1. Y prif risgiau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yw y gallai datblygwyr herio ei ddefnydd drwy'r broses apelio. Er mwyn lleihau'r risg hwn, mae Swyddogion wedi ystyried yn drylwyr y sylwadau a wnaed gan ddatblygwyr ac wedi gofyn am eglurhad pellach os yn bosibl. Unwaith y bydd y ddogfen wedi'i mabwysiadu, bydd Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei hadolygu'n flynyddol a gellir ystyried unrhyw broblemau a fydd yn codi wrth adolygu'r ddogfen.

9.2. Pe na byddai Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Bydd yn cael ei mabwysiadu, mae swyddogion wedi nodi y gallai datblygwyr ac ymgeiswyr gamddeall beth yw'r gofynion ar gyfer ceisiadau cynllunio yn yr ardal o dan sylw. Bwriad y ddogfen yw cyflymu'r broses ymgeisio ac felly leihau costau drwy ddarparu cyngor clir o flaen llaw i ymgeiswyr.

9.3. Pe na byddai Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol, byddai'r Cyngor yn methu yn ei gyfrifoldeb o weithredu'r ddogfen hon yn ôl cais UNESCO.

**10. Yr Hawl i Benderfynu**

10.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004